

# Chwarae dros Gymru

Gwanwyn 2018

Newyddion chwarae  
a gwybodaeth gan yr  
elusen genedlaethol  
dros chwarae

Rhifyn  
**50**

**Plentyndod chwareus**



# Cynnwys

2	Golygyddol	16	Plentyndod yn llawn chwarae
3	Newyddion	18	Chwarae allan ac o gwmpas
6	20 mlynedd o Chwarae Cymru	19	Galluogi Chwarae
8	Plentyndod Chwarae ledled Cymru	20	Cyfweliad gyda'r Gweinidog Plant
10	Hwyl yn y dwnjwn – llyfr stori	22	20 mlynedd o hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru
12	Chwarae yng Nghymru – casglu barn y plant	24	Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar
14	Chwarae trwy blentyndod		

## Diolch yn fawr

Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o *Chwarae dros Gymru*, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lawrlwytho o [www.chwaraecymru.org.uk](http://www.chwaraecymru.org.uk)

## Golygyddol

Rydau ni'n 20 oed. Pwy fyddai wedi meddwl, pan wnaethom gofrestru Chwarae Cymru fel elusen ym 1998, y siwrnai fyddai o'n blaenau.

Mae ein byd wedi newid cymaint ers hynny. Pwy allai, er enghraifft, fod wedi rhagweld effaith ffonau clyfar a datblygiadau technolegol eraill ar ein bywydau.

Ugain mlynedd yn ôl fe wnaethom sylweddoli ar ganlyniadau anfwriadol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 wrth greu'r hyn oedd yn tyfu'n amgylchedd ofn risg cynyddol. Bellach, mae'r mwyafrif ohonom yn sylweddoli bod y llanw wedi troi a bod cydnabyddiaeth eang i'r angen i blant profi cyfleoedd i gymryd risg – bod budd i bob risg. Dyma sut y byddant yn dysgu a thyfu'n wydn.

Heddiw, mae gennym Lywodraeth yng Nghymru sydd hefyd yn arddangos parodrwydd i gymryd risg, gan fabwysiadu'n fuan iawn bolisi chwarae cenedlaethol cyntaf y byd ac yn ddiweddarach, ac yn bwysicach fyth, ymatebodd y Cynulliad i'n galwadau a phasio deddfwriaeth i gefnogi

cyfleoedd chwarae plant. Mae hyn yn gydnabyddiaeth bendant o bwysigrwydd chwarae a'r hyn y gellid ei wneud i greu amgylchedd ble caiff plant gymaint o gyfleoedd i chwarae â'u neiniau a'u teidiau. Mae hon yn agwedd sydd ers hynny, wedi ei heiriol gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ac y dyfodol. Mae tystiolaeth am effaith ein hamgylchedd cynyddol segur a'n carwriaeth fawr gyda siwgwr wedi bod yn gwbl amlwg ers degawdau, mae bellach yn tyfu'n fwyfwy amlwg. Bydd pobl yn dweud na allwn ddychwelyd i fyd ein cyndadau, ond rydym ninnau'n dweud pan ddaw'n fater o blentyndod, mewn rhai agweddau, mae rhaid inni. Er budd ein lles i'r dyfodol, mae angen i blant gael eu magu mewn amgylchedd sy'n rhydd o wneuthurwyr bwyd sy'n gwthio siwgwr, ac mewn amgylchedd ble mae plant yn rhydd i chwarae'r tu allan – ble fo'r cydbwysedd rhwng pwysigrwydd a blaenoriaeth yn symud oddi wrth yrwr ceir i gerddwyr. A ph'run a ydyn ni'n hoffi hynny ai peidio, bydd hyn yn galw am ddeddfu gan y Llywodraeth i arwain y newidiadau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru – yn Weinidogion, Aelodau'r Cynulliad a swyddogion i gyd wedi cyfrannu at sicrhau'r newidiadau hyd yma. Dylem ddiolch iddynt, ond dim ond megis dechrau y maen nhw. Mae gwaith sylweddol yn dal i fod ar ôl i'w wneud, i ddadwneud y difrod a'r cyfyngiadau sydd wedi effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae mewn gofodau cyhoeddus. Ar lefel leol, gall pob un ohonom gyfrannu at newidiadau trwy amddiffyn cyfleoedd plant i chwarae a hyrwyddo chwarae ble bynnag y bo modd.

Yn olaf, sut allwn ni beidio â chyfeirio at yr eira ym mis Mawrth wnaeth droi pob ffordd, pentref, tref a dinas yn ofod gwirioneddol ddemocrataidd. Nid ychwanegu'r eira achosodd hyn ond tynnu'r traffig allan – nid pob traffig o reidrwydd, ond traffig fyddai'n teithio'n gyflymach na pherson yn cerdded.

Mae'r dystiolaeth yna ar gyfer sut i newid y byd i'n plant, ond mae'n gofyn am ymroddiad.

**Mike Greenaway,**  
Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru



## Newyddion

# Diwrnod Chwarae 2018



Cynhelir Diwrnod Chwarae eleni ar Ddydd Mercher 1 Awst.

Er mwyn dathlu 31 mlynedd o Ddiwrnod Chwarae, y thema eleni fydd **hawl plant i chwarae**.

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn dweud bod gan bob plentyn hawl i chwarae.

Mae thema Diwrnod Chwarae 2018 yn anelu i:

- Gefnogi cymunedau i ddod at ei gilydd i ddathlu hawl plant i chwarae
- Gynyddu ymwybyddiaeth am hawl plant i chwarae
- Hybu pwysigrwydd chwarae ar gyfer hapusrwydd plant yn ogystal â'u hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.

Mae Diwrnod Chwarae'n ddathliad blynyddol o chwarae plant gyda miloedd o blant a theuluoedd yn chwarae'r tu allan mewn digwyddiadau ar draws y DU. Mae'n gyfle i gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae plant a'r angen am gyfleoedd chwarae o ansawdd da bob dydd o'r flwyddyn.

*Cydlynir Diwrnod Chwarae gan Chwarae Cymru, PlayBoard Northern Ireland, Play Scotland a Play England.*

[www.playday.org.uk](http://www.playday.org.uk)

## Creu mannau chwarae ar gyfer pob plentyn

Mae'r pecyn cymorth *Creu mannau chwarae hygrych* wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth eglur a chryno fydd yn helpu i greu mannau chwarae sy'n galluogi pob plentyn i chwarae ynddynt, ynghyd â'u ffrindiau a'u teuluoedd.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth y bwriedir iddo helpu pobl i ddeall a mynd i'r afael â materion sy'n destun pryder ac mae'n cynnwys templedi ac offer cam-wrth-gam, ymarferol ar gyfer cyflawni gwaith sy'n gysylltiedig â chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu plant anabl a'u teuluoedd wrth gael mynediad i fannau chwarae.

Mae'r pecyn cymorth yn canolbwyntio ar fannau sydd wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer chwarae, fel meysydd chwarae ac ardaloedd chwarae. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer amryw o leoliadau ledled ein cymunedau a'n mannau cyhoeddus, os ydynt wedi eu clustnodi'n benodol ar gyfer chwarae plant ai peidio.

Bwriedir i'r pecyn cymorth hwn gynorthwyo awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, gwleidyddion ar bob lefel, cynllunwyr mannau agored, cymdeithasau tai a rheolwyr parciau a meysydd chwarae wrth iddynt ddatblygu ac uwchraddio mannau chwarae hygrych. Bydd yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer gwneuthurwyr offer meysydd chwarae, rhieni ac aelodau o'r gymuned, er mwyn iddynt ddeall y cyfleoedd a'r heriau.

**Mae'r pecyn cymorth ar gael i'w lawrlwytho am ddim ar:**  
[www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/creumannauchwaraehygrych](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/creumannauchwaraehygrych)



# Trafod chwarae plant yn Y Senedd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mewn dadl yn Y Senedd ym mis Chwefror 2018 cynigodd Vikki Howells, yr Aelod Cynulliad dros Gwm Cynon, Fil Chwarae Cynhwysol. Byddai'r Bil yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ardaloedd ac offer chwarae sy'n ateb anghenion plant ag anableddau.

Cynigodd Vikki Howells y Bil wedi i drigolion leisio pryderon ynghylch trafferthion y mae plant anabl a'u teuluoedd yn eu cael yn ei hetholaeth. Dywedodd y byddai'r Bil: *'...yn ehangu ar Fesur [Plant a Theuluoedd (Cymru)] 2010... Byddai fy nghynnig yn atgyfnerthu a diwygio hyn, gan flaenoriaethu darparu offer chwarae cynhwysol.'*

## Fel rhan o'r ddadl dywedodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, Huw Irranca-Davies:

*'Ceir gofynion clir ar waith eisoes, ond nid ydym ni, nac eraill yn y maes, fel Chwarae Cymru ... yn teimlo mai rhoi dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol yw'r ffordd orau o sicrhau cyfleoedd chwarae cynhwysol. Mae'r asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn datgelu bod awdurdodau lleol wedi bod yn ymdrechu'n lew i ddarparu cyfleoedd chwarae hygyrch. Mae'r adroddiadau cynnydd wedi dangos bod cyllid wedi cael ei ddefnyddio ledled Cymru i fynd i'r afael â materion hygyrchedd mewn perthynas â manau chwarae awyr agored, a gyda llaw, mae'n cynnwys manau chwarae ehangach yn ogystal.'*

Mae trawsgrifiad llawn o'r ddadl ar gael ar: [www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)

Yma yn Chwarae Cymru, rydym yn falch iawn bod chwarae plant wedi ei drafod gan Aelodau'r Cynulliad yn Y Senedd a'i fod yn derbyn cefnogaeth barhaus oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Cyfyngau  
Cymdeithasol



[www.facebook.com/  
ChwaraeCymru](http://www.facebook.com/ChwaraeCymru)



[www.twitter.com/ChwaraeCymru](http://www.twitter.com/ChwaraeCymru)

## Gwobrau Gwaith Chwarae 2018

Mae'r Gwobrau Gwaith Chwarae blynyddol yn dathlu'r sector gwaith chwarae trwy gydnabod pobl sydd wedi gwneud cyfraniad a gwahaniaeth sylweddol i fywydau'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Maent wedi eu creu i ganmol y gwaith caled a gyfrannodd y gweithwyr chwarae enwebedig dros y flwyddyn ddiwethaf.

Eleni, mae'n wych gweld bod cynrychiolaeth dda o blith mudiadau gwaith chwarae Cymru wedi eu gosod ar restr fer y gwobrau.

Llongyfarchiadau i Simon Bazley, Playful Futures am ennill y Wobr Hyfforddiant.

Rydym yn falch iawn hefyd i'n diweddar gydweithiwr a chyfaill Stuart Lester ennill Gwobr Goffa Paul Bonel.

Llongyfarchiadau i bawb a enwebwyd, a osodwyd ar y rhestr fer ac a enillodd Wobr Gwaith Chwarae.

[www.playworkawards.org.uk](http://www.playworkawards.org.uk)

# Dadansoddi barn plant

**Mae'r Rhaglen Gwirfoddolwyr Dadansoddol yn gynllun sy'n paru mudiadau o'r sector gwirfoddol sydd angen cymorth, gyda dadansoddwyr y llywodraeth ddaw ar leoliad.**

Yn 2017 cafodd Chwarae Cymru, trwy'r Rhaglen Gwirfoddolwyr Dadansoddol, ei pharu gyda dadansoddwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a Llywodraeth Cymru, i'n cynorthwyo i gynrychioli barn plant yng Nghymru o ran eu mynediad i chwarae yn eu cymunedau.

Er mwyn cydymffurfio â dyletswyddau Digonolrwydd Chwarae, cyflwynodd pob awdurdod lleol yng Nghymru Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013 a 2016. Fel rhan o'r broses asesu, cynhaliodd nifer o awdurdodau lleol arolygon gyda phlant a defnyddiodd amryw ohonynt gwestiynau tebyg yn seiliedig ar holiadur enghreifftiol.

Adolygodd y dadansoddwyr y data a gasglwyd gan awdurdodau lleol, gan ddynodi elfennau cyffredin rhwng yr ymatebion, a gweithio gyda ni i ddadansoddi'r data er mwyn inni allu tynnu barn a safbwyntiau plant at ei gilydd o bob cwr o Gymru.

**Am fwy o wybodaeth am y canfyddiadau, gweler yr erthygl ar dudalennau 12 – 13.**

Un o gasgliadau'r ymarfer hwn oedd bod angen mabwysiadu dull gwell ar gyfer casglu data ac felly fe ymgeisio i fod yn rhan o'r Rhaglen Gwirfoddolwyr Dadansoddol eto yn 2018. Rydym yn falch inni gael ein paru gyda gwirfoddolwr all ein helpu ni a'n cydweithwyr gyda dylunio cwestiynau a holiaduron, a chefnogi'r gwaith o gasglu data er mwyn inni fabwysiadu arddull mwy cydlynol tuag at waith cynnal arolygon yn y dyfodol.

## Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar* ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'n egluro uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar medrus iawn, gaiff ei gydnabod fel proffesiwn uchel ei barch a gyrfa o ddewis.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gweithlu blynyddoedd cynnar medrus iawn â rôl allweddol wrth helpu i ddatblygu dysg a datblygiad plant, gan eu hannog i allu datblygu'r sgiliau y maent eu hangen i gyflawni eu llawn botensial mewn bywyd.

### Meddai Huw Irranca-Davies, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant:

*'Rydym am ddenu'r bobl gywir i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant sydd â'r sgiliau a'r agweddau i ddarparu gofal, addysg a chyfleoedd chwarae o'r safon uchaf i'r plant ... Rydym angen hyfforddiant sy'n cefnogi'r gweithlu i ddeall yn drylwyr sut y bydd plant yn dysgu a datblygu, ac rydym am gefnogi'r gweithlu presennol i ennill y sgiliau y maent eu hangen i symud ymlaen yn eu gyrfaedd a chael mynediad i fwy o gyfleoedd gwaith.'*

Mae Chwarae Cymru'n falch bod y *Cynllun Gweithlu* wedi ei gyhoeddi a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru trwy Gyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) i fynd i'r afael â materion pwysig ar gyfer y sector gwaith chwarae – fel yr amlinellir yng nghamau allweddol y *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar*.

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

## Cadwch mewn cysylltiad

Os hoffech dderbyn ein diweddariadau rheolaidd am chwarae plant a gwaith chwarae, yn cynnwys e-fwletinâu misol a gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyhoeddiadau newydd, cofrestrwch ar ein rhestr bostio.

[www.chwaraecymru.org.uk/cym/ymuno](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/ymuno)

# 20 mlynedd o Chwarae Cymru

Ers sefydlu Chwarae Cymru fel elusen ym 1998, mae dros 30 aelod o staff wedi gweithio i'r mudiad – gormod i'w henwi – ond mae pob un wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr a gwerth chweil.

I ddathlu 20<sup>fed</sup> pen-blwydd Chwarae Cymru fe ofynnwyd i rai o staff, ymddiriedolwyr a ffrindiau'r elusen – ambell un sydd wedi bod yma ers y cychwyn cyntaf – i rannu eu huchafbwyntiau o'r ugain mlynedd diwethaf.

## Marianne Mannello

**Cyfarwyddwraig Gynorthwyol, Chwarae Cymru**

Dechreuodd fy nhaith gyda Chwarae Cymru yn ôl ym 1997, pan ofynnwyd imi gynrychioli Fforwm Chwarae Cymru Gyfan ar bwyllgor rheoli Chwarae Cymru, cyn i'r mudiad droi'n elusen. Roedden ni'n grŵp bychan o bobl ymroddedig lwyddodd i sicrhau grant bach iawn oddi wrth yr hen Swyddfa Gymreig i sefydlu elusen genedlaethol ar gyfer chwarae plant.

Fe sefydlom ein helusen, gydag aelodau newydd o staff, y tu ôl i gypyrddau yn swyddfa Plant yng Nghymru. Gofod ar fenthyg oedd ein 'swyddfa', a dyna'r cyfan y gallem ei fforddio ar y pryd. Er nad oedd ein sefyllfa ariannol yn wych, roedd yna ymdeimlad o weledigaeth a photensial a digon o le i ddatblygu.

Yn fuan, symudodd Chwarae Cymru i leoliad mwy o faint ym Mae Caerdydd, oedd ar y pryd wedi ei fabwysiadu'n gartref i ddatganoli Cymreig. Yn sgîl datganoli daeth cyfleoedd cyffrous ac fe wnaethom helpu i ddrafftio polisi chwarae cynta'r byd, strategaethau ac yn y pen draw, weithio i ddylanwadu



Clochdar dros Chwarae ym Mharc Biwt (2011)

ar ddeddfwriaeth chwarae. Mae'n anodd dewis uchafbwynt, ond mae'n sicr bod gweithio'n agos gyda'n diweddar gydweithwraig Gill Evans i gynllunio a llwyfannu Cynhadledd Fyd-eang yr International Play Association (IPA) yn 2011, yn uchel iawn ar y rhestr. Fe fu'n garreg filltir anhygoel i bob un ohonom.

## Keith Towler

**Ymddiriedolwr Chwarae Cymru a chyn-Gomisiynydd Plant Cymru**

Beth alla' i ei ddweud am Chwarae Cymru a'i orchestion? Mae'n fudiad sydd wedi hyrwyddo chwarae, hawliau plant, a datblygiad gweithwyr chwarae am 20 mlynedd.



Joe Rowley yn cyfweled cyn-Brif Weinidog Cymru, y diweddar Rhodri Morgan (2008)

Mae'n sefydliad sydd wedi effeithio ar gymunedau yng Nghymru, ar lefel genedlaethol, ar draws y DU ac yn rhyngwladol.

Sut felly? Wel, ar lefel gymunedol trwy hyfforddi gweithwyr chwarae i gyflawni ar gyfer plant ar draws Cymru. Ar lefel genedlaethol trwy ddylanwadu'n gadarnhaol ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu o blaid chwarae. Ar draws y DU trwy gefnogi ac eiriol dros y sector chwarae. Yn rhyngwladol trwy fod yn rym gweithgar o fewn yr IPA ac wrth gefnogi datblygu Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).



## Margaret Jervis MBE DL

**Cyfarwyddwraig Weithredol,  
Plant y Cymoedd a chyn-  
Gadeirydd Chwarae Cymru**

Braint oedd bod yn Gadeirydd cyntaf Chwarae Cymru a chael bod yn rhan o sefydliad oedd â chenhadaeth i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n cael profiadau a chyfleoedd chwarae o ansawdd.

Darbwyllodd Chwarae Cymru Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisi fyddai'n cefnogi chwarae. Mae'r tîm wedi gweithio gyda'r llywodraeth dros y blynyddoedd yn cynnwys cefnogi datblygu'r Polisi Chwarae cenedlaethol.

Bydd Chwarae Cymru'n parhau i sicrhau bod ein plant yn cael yr hawl i chwarae a dymunaf yn dda iddynt am yr 20 mlynedd nesaf.

## Dr Mike Shooter CBE

**Cadeirydd Chwarae Cymru**

Pan ddaeth y gwahoddiad cyntaf gan Mike Greenaway i fod yn Ymddiriedolwr ac yna'n Gadeirydd Chwarae Cymru, fe suddodd fy nghalon. Roeddwn wedi bod yn ceisio dirwyn fy ymrwymiad i'r drydedd sector i ben a'r peth olaf oeddwn ei angen, meddyliais ar y pryd, oedd ymrwymiad newydd arall. Ond mae Mike yn ddyn sy'n llawn perswâd a diolch byth am hynny!

Achos 'does dim wedi rhoi mwy o bleser imi na bod yn rhan o'r mudiad yma. Yn ymgyrchu dros hawl plant i chwarae, yn gweithio gyda grŵp ymroddedig, medrus, gwych o staff, yn cadeirio'r

Bwrdd mwyaf craff, ac yn cefnogi Mike, y mae ei arweinyddiaeth, yn gwbl haeddiannol, yn cael ei gymeradwyo'n lleol a thramor.

Uchafbwyntiau? Wel, y cyfan am wn i, ond un peth yn benodol. Y ffordd y mae Gweinidogion olynol Llywodraeth Cymru a gweision sifil

wedi rhoi eu bendith i'n gwaith. A Phen-blwydd Hapus Chwarae Cymru. Diolch am y gwahoddiad yna Mike.

## Catriona Williams OBE

**Prif Weithredwraig, Plant yng  
Nghymru a Sylwedydd Bwrdd  
Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru**

Mae Chwarae Cymru yn fudiad y gallwn ni yng Nghymru fod yn falch iawn ohono. Mae Mike Greenaway a'i dîm, yn ogystal â'r cyn-Gadeirydd a'r Cadeirydd presennol (Margaret Jervis a Mike Shooter) yn wybodus, penderfynol ac angerddol ynghylch pwysigrwydd chwarae plant. Mae eu brwdfrydedd wedi sicrhau bod y mudiad wedi cadw'n drwm i'w gennad gwreiddiol, y mae'n ei gyfleu yn ei holl weithgarwch er budd plant.

Mae wedi bod yn bleser gwyllo Chwarae Cymru'n datblygu o'r dyddiau cynnar wedi eu lleoli yn ein swyddfa ni, i'r mudiad dylanwadol ydyw heddiw. Mae wedi arwain y ffordd wrth sicrhau na chaiff gwerth chwarae plant fyth ei anghofio, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y byd i gyd.

## Kathy Muse

**Rheolwraig Swyddfa, Chwarae  
Cymru**

Mae ein cynhadledd flynyddol yn dal i fod yn uchafbwynt y flwyddyn i mi. Dros yr 20 mlynedd diwethaf rwyf wedi trefnu a chroesawu cynrychiolwyr a siaradwyr o bob cwr o'r byd i'n cynhadledd Ysbryd – gan wyllo 'gurus' chwarae'n rhannu eu syniadau a chyfranogwyr yn curo drymiau, yn cynnau tân ac yn mynychu gweithdai ar hyrwyddo hawl plant i chwarae. Roedd 'Clochdar dros Chwarae' ym Mharc Biwt Caerdydd yn 2011 (fel rhan o gynhadledd yr IPA) yn uchafbwynt hefyd. Roedd yn wych gweld cannoedd o blant yn cael amser wrth eu bodd gyda'r gweithwyr chwarae'n cael brwydrau dŵr, yn gwisgo i fyny, yn dringo ac adeiladu cuddfannau.



Marianne Mannello yn lansiad chwareus Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae (2006)

Yn sicr, mae'n elusen sy'n goryglawni ond mae'n un sydd wedi cadw ei ffocws ar wella bywydau plant trwy'r rhyfeddod a elwir yn 'chwarae'. Da iawn Chwarae Cymru! Byddai ein byd yn llawer tlotach lle hebdoch.

# Plentyndod Chwareus ledled Cymru

Ers 20 mlynedd bu Chwarae Cymru'n gweithio gyda'r sector chwarae a gwaith chwarae i gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae plant yng Nghymru. Mae ein gwefan a'n hadnoddau wedi eu hanelu'n bennaf at gefnogi gweithwyr proffesiynol yn y sectorau chwarae a gwaith chwarae, yn ogystal â'r bobl hynny sy'n gweithio yn y sectorau iechyd, addysg a chynllunio, er enghraifft. Fe wnaethom ddynodi bwlch yn ein gwaith sydd wedi arwain at ddatblygu ein hymgyrch Plentyndod Chwareus.

## Y camau nesaf

Mae Plentyndod Chwareus yn anelu i helpu rhieni, gofawyr a neiniau a theidiau i ddarparu amser, lle a chaniatâd i blant chwarae – gartref ac yn eu cymuned leol. Bydd plant yn dweud wrthym eu bod eisiau mwy o gyfleoedd i chwarae allan gyda'u ffrindiau. Mae chwarae'n elfen allweddol o blentyndod iach a hapus. Mae'n gyfrifoldeb arnom ni fel oedolion i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

### Mae Plentyndod Chwareus yn anelu i:

- Gefnogi rhieni i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer eu plant ac i deimlo'n hyderus i adael i'w plant chwarae allan yn eu cymunedau

- Gefnogi twf a datblygiad cymunedau chwareus ar gyfer plant ar draws Cymru
- Gefnogi cydlynid cymunedol trwy wella agweddau rhai oedolion tuag at weld plant a phobl ifanc yn chwarae a chymdeithasu yn eu cymunedau.

### Un o elfennau canolog Plentyndod Chwareus yw gwefan newydd, fydd yn cynnwys:

- Gwybodaeth am chwarae plant, yn cynnwys y buddiannau corfforol, meddyliol ac emosiynol
- Syniadau ymarferol ar gyfer rhieni – pethau i'w gwneud, ble i fynd
- Cynghorion defnyddiol a chwalu chwedlau – yn cynnwys goresgyn pryderon
- Gwybodaeth ac adnoddau y gall rhieni eu defnyddio i ymgyrchu dros chwarae yn eu cymuned
- Blog rheolaidd gyda blogwyr gwadd
- Esiamplau o gymunedau chwareus ar draws Cymru.

Yn ogystal, bydd y wefan yn ddefnyddiol ar gyfer grwpiau lleol a chynghorau tref a chymuned i ddarparu cymdogaethau chwarae-gyfeillgar yn eu hardaloedd.

### Bydd y wefan newydd ar gael yn fuan ar:

[www.plentyndodchwareus.cymru](http://www.plentyndodchwareus.cymru)





# Partneriaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn ystod haf 2017 gweithiodd Chwarae Cymru mewn partneriaeth â Iechyd Cyhoeddus Cymru ar eu rhaglen Pob Plentyn Cymru. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth a chynghor i gefnogi rhieni i roi cychwyn iach a hapus mewn bywyd i blant. Mae Pob Plentyn Cymru yn cynghori y dylai plant chwarae allan bob dydd.



Dynododd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddeg cam sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu plant yn y blynyddoedd cynnar i gynnal pwysau iach, y mae'n eu hyrwyddo fel rhan o'r rhaglen Pob Plentyn Cymru. Mae Cam Chwec yn canolbwyntio ar chwarae'r tu allan, gyda'r nod y caiff pob plentyn gyfle i chwarae tu allan bob dydd. Mae plant sy'n chwarae'r tu allan yn fwy bywiog, ac yn fwy tebygol o gyflawni argymhelliad Prif Swyddogion Meddygol y DU o dair awr o symud bob dydd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod angen gweithredu i hybu agweddau sy'n fwy cadarnhaol tuag at chwarae'r tu allan, yn enwedig chwarae sy'n cynnwys risg, ac i normaleiddio chwarae'r tu allan mewn gofodau cymunedol anffurfiol, er enghraifft, chwarae stryd.

Bydd angen i'r gweithredu yma fod mewn cyd-destun cymdeithasol cefnogol ac, o ganlyniad, bydd angen gweithredu ar yr un pryd i ddileu neu leihau cyfyngiadau amser, economaidd, cymdeithasol neu ffisegol.

Yn dilyn gwaith partneriaeth llwyddiannus gyda Chwarae Cymru i helpu i lansio rhaglen Pob Plentyn Cymru, ac i drosglwyddo symposiwm ar y cyd ar chwarae a risg, dynododd Iechyd Cyhoeddus Cymru nifer o gyfleoedd i ddefnyddio arbenigedd Chwarae Cymru i weithredu. Bydd y gwaith yma'n dwyn ynghyd elfennau o waith sy'n cael ei drosglwyddo eisoes gan Chwarae Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan roi ffocws penodol cryfach ar chwarae'r tu allan yn y blynyddoedd cynnar.

Dros y misoedd nesaf bydd Chwarae

Cymru'n gweithio ar amryw o amcanion ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Cynyddu gweithredu lleol i warchod a chynyddu'r manau chwarae awyr agored sy'n hygyrch ac ar gael mewn cymunedau yng Nghymru
- Dylanwadu ar ganfyddiadau'r cyhoedd er mwyn cynyddu'r nifer o bobl sy'n teimlo bod chwarae'r tu allan mewn manau cyhoeddus yn dderbyniol
- Lleihau'r cyfyngiadau y bydd oedolion yn eu gosod ar chwarae'r tu allan trwy hybu agweddau cadarnhaol tuag at chwarae sy'n cynnwys risg
- Cynyddu ymwybyddiaeth o werth chwarae ar gyfer Iechyd ymysg gweithwyr proffesiynol yn ogystal â rhieni.

## Chwarae ar y stryd yng Nghymru



THE MILLENNIUM STADIUM  
CHARITABLE TRUST  
YMDIRIEDOLAETH ELUSENOL  
STADIWM Y MILLENIWM

Mae Chwarae Cymru wedi derbyn ariannu oddi wrth Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm i ganiatáu inni barhau i weithio ar y cyd gyda *Playing Out* i hyrwyddo a hwyluso prosiectau chwarae stryd a drefnir gan drigolion.

Bydd yr ariannu yma'n ein helpu i gefnogi trigolion lleol i hwyluso chwarae stryd yn eu cymdogaethau. Byddwn yn cefnogi sesiynau chwarae stryd lleol a drefnir gan gymdogaion ar gyfer cymdogaion trwy:

- ddarparu gweithdy hyfforddi ar gyfer trigolion lleol sydd â diddordeb
- sefydlu a chynnal rhwydwaith cefnogol o drigolion
- cyfieithu deunyddiau defnyddiol, sydd ar gael eisoes trwy *Playing Out*, i'r Gymraeg
- darparu pecynnau offer (yn cynnwys gwasgodau llachar, arwyddion ffordd ar gau a chonau traffig) ar gyfer cau strydoedd lleol
- darparu cefnogaeth ymarferol mewn digwyddiadau lleol.

Bydd atal traffig rhag symud trwy strydoedd preswyl yn eu hagor ar gyfer chwarae, trwy greu gofod diogel i blant chwarae allan. Caiff y plant gyfle i chwarae allan yn rhydd ac yn ddiogel ar eu stryd eu hunain ac mae'n creu'r amodau sydd eu hangen er mwyn i chwarae ar y stryd fod yn normal unwaith eto. Gall prosiectau chwarae stryd arwain at strydoedd mwy diogel, cymunedau mwy cydlynol ac maent yn gwneud cyfraniad ystyrlon i lefelau gweithgarwch corfforol plant. Mae'n creu cymunedau cryfach, ymdeimlad o berthyn ac mae'n ysbrydoli trigolion i wneud mwy yn eu cymunedau lleol.

Mae'r ariannu yma'n dilyn cynnal prosiect peilot llwyddiannus yng Nghaerdydd (gweler cylchgrawn Hydref 2017) gan Chwarae Cymru yn ystod haf 2017. Dengys tystiolaeth o'r peilot hwn bod cefnogaeth

gan drigolion lleol yn cynyddu'r tebygolrwydd y caiff plant sy'n byw yn y cymunedau hynny fwy o fynediad i fannau da i chwarae gyda'u ffrindiau. Cafodd peilot y sesiynau chwarae stryd eu cynnwys fel astudiaeth achos yn *Symud ymlaen: Teithio iach i bawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg*, adroddiad blynyddol 2017 Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg.

Bydd yr ariannu yma'n caniatáu inni gynnig cefnogaeth gynaliadwy a realistig fydd yn cyfrannu at waddol sylweddol ar gyfer cymunedau. Bydd yn darparu cefnogaeth ac offer ymarferol i alluogi cymunedau i gefnogi cyfleodd chwarae yn y gymuned mewn modd sy'n gweddu i'r gymuned a'r amgylchedd lleol.

<http://playingout.net>

# Hwyl yn y dwnjwn - llyfr stori

Mae Chwarae Cymru wedi gweithio gyda storiwr, cartwnydd, plant, rhieni a neiniau a theidiau yn Ysgol Gynradd Mount Stuart, Caerdydd i ysgrifennu llyfr am hawl y plentyn i chwarae.

Diolch i ariannu gan raglen Arian i Bawb Y Loteri Genedlaethol llwyddodd Chwarae Cymru i weithio gyda Petra Publishing, cyhoeddwr cymunedol hirsefydlog, i'n helpu i ddatblygu a chyhoeddi llyfr stori am chwarae plant. Mae'r llyfr dwyieithog wedi ei anelu at blant oed cynradd ac mae'n amlinellu hawl plant i chwarae, sydd wedi ei ddiogelu yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).



oed. Gyda dim ond dillad gwely, brigau a cherrig, mae'r plant yn defnyddio'u dychymyg a chlywir sŵn chwarae gorfoleddus yn codi o'r dwnjwn. O ganlyniad, mae'r frenhines yn penderfynu gwisgo i fyny fel hen wraig er mwyn mynd i lawr i'r dwnjwn i ymchwilio. Yn fuan iawn mae'n newid ei meddwl am chwarae gan addo ei gwneud yn haws i blant chwarae yn ei theyrnas.

Rydym wrthi'n datblygu ymgyrch – Plentyndod Chwareus – sydd am ledaenu ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd ynghylch buddiannau chware plant a sut y mae oedolion yn ei gefnogi. Mae'r llyfr yn rhan o'r ymgyrch yma, fydd yn cyfannu ystod o adnoddau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae'r llyfr ar gyfer plant a rhieni, gan alluogi plant i fod yn eiriolwyr fel dalwyr hawliau a rhieni i eiriol dros chwarae'n lleol. Wedi ei ysgrifennu gan grŵp yn cynnwys rhieni a neiniau a theidiau, mae'n nawys y llyfr yn addas ar gyfer cynulleidfaoedd o rieni, mae'n apelio at bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a bu'n llwyddiant ysgubol gyda'n cywion-awduron pan ddarllenwyd y stori orffenedig iddynt.

Fe weithiom gyda Mike Church, storiwr proffesiynol a gefnogodd grŵp o blant a rhieni trwy gyfres o weithdai, gan ddynodi problemau a dathliadau sy'n gysylltiedig â chwarae. Trwy'r gweithdai, crëwyd geiriau a delweddau i adrodd y stori, gyda'r plant yn darparu darluniau ysbrydoledig o ddelweddau chwareus wnaeth helpu ein cartwnydd i ddod â'r stori'n fyw.

Creodd y profiadau a rannwyd gan y grŵp o blant a rhieni stori rymus, sy'n adrodd hanes brenhines gas fyddai'n cosbi plant a theluoedd am chwarae. Yn fuan, roedd ei dwnjwn mawr yn llawn plant o bob



## Meddai un o'r rhieni a gyfranogodd, wrth fyfyrio ar y profiad:

*'Fe wnes i wir fwynhau'r sesiynau stori i gyd. Yr hyn wnaeth fy synnu fwyaf oedd y syniadau gwych ddyfeisiodd y plant ac roedd yn dipyn o sioc eu clywed yn cyfeirio at awgrymiadau traddodiadol ar gyfer chwarae. Fe wnaethon nhw wir ddefnyddio eu dychymyg a thynnu lluniau anhygoel. Roedd y grŵp mor swnllyd a llawn cyffro ar y dechrau, doeddwn i ddim yn disgwyl cael llyfr stori ar ddiwedd y sesiynau i fod yn onest! Rwyf wedi cael cip ar y llyfr, ac mae'n bendant wedi dal nawys yr hyn wnaethon ni'n ystod y sesiynau stori.'*



Mynychodd Marianne Mannello, ein Cyfarwyddwraig Gynorthwyol, yr holl sesiynau ysgrifennu stori yn Ysgol Gynradd Mount Stuart. Dyma oedd ganddi i'w ddweud am y stori: *'Mae Hwyl yn y dwnjwn yn arddangos yn hyfryd sut y gall plant ganfod a chreu aml i ennyd o chwarae ble bynnag y maent. Mae'n ein hatgoffa y gall pob oedolyn ym mywyd plentyn un ai gefnogi neu atal yr hawl i chwarae. Diolch o galon i'n hawduron, yn blant a rhieni, am ein hatgoffa pan fo'r amodau'n iawn ar gyfer chwarae, y bydd yn ymddangos.'*

**Roedd y plant yn llawn cyffro wrth weld copi drafft o'r llyfr ac roedden nhw'n hapus iawn bod y cartwnydd wedi cynnwys eu syniadau. Dyma oedd ganddynt i'w ddweud:**

*'Fe wnes i wir fwynhau gwneud y lluniau'*

*'Roeddwn i'n hoffi clywed Mike yn adrodd y stori'*

*'Dyna fy llun i o'r giard yn dal y bechgyn'*

*'Fy syniad i oedd y pypedau cysgod'*

*'Mae'r frenhines yn edrych yn hapus nawr ei bod hi'n chwarae gyda'r plant'*



**Meddai Helen Borley, Pennaeth Ysgol Gynradd Mount Stuart:**

*'Mae'r plant ifanc yma wedi ennill llawer iawn o'r prosiect, roedden nhw'n neidio'n llawn cyffro pan oedd hi'n ddiwrnod prosiect dweud stori. Bydd y profiad unigryw yma'n aros gyda nhw fel atgof arbennig o'r hyn y gall dysgu fod a bydd y llyfr yn gofrodd wych y byddant yn ei drysori a, gobeithio, yn ei rannu gyda'u plant hwythau.'*

**Caiff Hwyl yn y dwnjwn ei ddisbarthu i blant yng Nghymru dros y misoedd nesaf – cadwch lygad amdano yn eich llyfrgell neu ganolfan iechyd leol.**

# Chwarae yng Nghymru - casglu barn y plant

Yn 2017, cafodd Chwarae Cymru ei pharu gyda dau ddadansoddwr trwy gynllun y llywodraeth i gefnogi mudiadau gwirfoddol. Fe wnaeth y ddau ddadansoddi ac adrodd ar ddata o arolygon a gwblhawyd gan blant a phobl ifanc a gynhaliwyd gan 13 o awdurdodau lleol yng Nghymru fel rhan o'u Hasesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016. Adolygodd y dadansoddwyr y cwestiynau a ofynnwyd ym mhob awdurdod lleol er mwyn dynodi cwestiynau cymaradwy. Fe wnaethant ystyried canfyddiadau 5,478 o blant rhwng pump a 17 oed, a holwyd am chwarae.

Wrth gasglu'r data, cafodd cwestiynau â geiriad neu ddehongliad tebyg eu grwpio gyda'i gilydd gan fwyafu'r ymateb ar gyfer pob cwestiwn, gan gymryd na fyddai geiriad ychydig yn wahanol yn peri fawr o effaith.

## Dadansoddwyd y cwestiynau a'r datganiadau canlynol:

- Ble yw dy hoff le i chwarae neu gymdeithasu pan nad wyt ti yn yr ysgol?
- Pa mor aml fyddi di'n mynd allan i chwarae neu gymdeithasu gyda dy ffrindiau?
- Beth fydd yn dy stopio rhag chwarae'r tu allan?
- Pan ei di allan i chwarae neu gymdeithasu, beth fyddi di'n hoffi ei wneud?
- Pan fydda' i'n chwarae neu'n cymdeithasu yn fy nghymdogaeth, mae'r lleoliadau yn... (gwych / iawn / ddim yn wych / da i ddim)
- Pan fydda' i'n mynd allan i chwarae, rwy'n gallu mynd allan ar fy mhen fy hun neu gyda...
- Mae chwarae a chymdeithasu'n gwneud imi deimlo ...
- Wyt ti'n cael digon o amser i chwarae allan?
- Wyt ti'n gallu chwarae allan ar dy ben dy hun?
- A oes digon o gyfleoedd iti chwarae'r tu allan?
- Pa mor ddiogel wyt ti'n teimlo pan fyddi di'n chwarae allan?

Pan ofynnwyd iddyn nhw am eu cyfleoedd chwarae, roedd cael amser, lle a chaniatâd i chwarae'n bwysig i'r plant.

## Polisi a fframwaith deddfwriaethol

Mae gan blant hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yn 2013, mabwysiadodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn Sylw Cyffredinol sy'n egluro ystyr a phwysigrwydd Erthygl 31 CCUHP i lywodraethau ar draws y byd.

Yng Nghymru, mae fframwaith polisi ar gyfer chwarae wedi bod yn ei le ers 2002 gyda chyhoeddiad polisi chwarae cenedlaethol, wedi ei ddilyn gan strategaeth genedlaethol yn 2006. Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardaloedd.

*Mae Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae, cyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol ar asesu ar gyfer a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn eu hardal, yn nodi, 'er mwyn sicrhau bod cyfleoedd chwarae yn bodloni gofynion plant, mae'n hollbwysig ymgynghori â hwy am yr hyn y maent yn ei ddymuno o chwarae'.*

Mae ceisio barn plant yn fodd y gallwn ddynodi sut ydym yn darparu, yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r hawl i chwarae. Gan fod chwarae mor bwysig i bob plentyn, mae angen inni sicrhau bod unrhyw gyfranogaeth sydd ganddynt yn y broses llunio penderfyniadau'n ystyrlon, ac nad yw'n symbolaidd yn unig nac yn cyfyngu'n ddiangen ar eu hamser a'u rhyddid i chwarae.





## Amser i chwarae

Ar y cyfan, mae'r data'n dynodi bod plant yn bositif ynghylch faint o amser sydd ganddynt i chwarae, gyda 40 y cant yn adrodd eu bod yn chwarae'r tu allan gyda ffrindiau bron bob dydd a 34 y cant yn nodi bod hyn yn digwydd ychydig ddyddiau bob wythnos. Fodd bynnag, mae'r lefel sy'n nodi eu bod prin byth (15 y cant) a byth (naw y cant) yn chwarae allan gyda ffrindiau'n teilyngu archwiliad pellach mewn arolygon yn y dyfodol.

O ran yr amser sydd gan blant i chwarae, mae bron i hanner yn teimlo bod ganddynt ddigon, gyda 31 y cant yn adrodd bod ganddynt ddigonedd o amser.

Gofynnwyd i bum mil o blant beth sy'n eu hatal rhag chwarae'r tu allan. Mae nosweithiau tywyll a bod yn rhy brysur oherwydd gwaith cartref yn uchel ar y rhestr o resymau a nodwyd. Mae'r ffactorau hyn yn gysylltiedig ag amser – fydd gan blant ddim amser i chwarae allan ar ein dyddiau byrraf ac mae'n ymddangos bod amser rhydd yn cael ei dreulio'n gwneud gwaith cartref yn hytrach na'n chwarae.

## Mannau i chwarae

Gofynnwyd i blant am eu hoff fannau i chwarae pan nad ydynt yn yr ysgol. Mae nifer yr ymatebion yn dynodi bod y plant wedi gallu dewis mwy nag un lleoliad o restr barod. Mae manau awyr agored yn uchel ar y rhestr, gan mai'r tri hoff le i chwarae a gofnodwyd oedd ar gae neu ardal werdd leol, mewn parc, gardd neu ardd ffrindiau.

Pan fyddan nhw'n chwarae yn eu cymdogaeth, nododd 45 y cant o blant y gallant wneud rhai o'r pethau y maent yn eu hoffi, tra bo 43 y cant yn dweud bod y cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn eu galluogi i wneud popeth yr hoffent ei wneud.

## Caniatâd i chwarae

Yn braf iawn, ymatebodd 83 y cant o'r rheini a holwyd yn gadarnhaol pan ofynnwyd os y gallant chwarae allan ar eu pen eu hunain, gyda 91 y cant yn dweud eu bod bob amser neu fel arfer yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn chwarae'r tu allan.

At ein dibenion ni ar gyfer llunio casgliadau, rydym yn cymryd, yn seiliedig ar ein profiad, pan fo plant yn siarad am deimlo'n ddiogel, nad ydyn nhw'n gyffredinol yn siarad am Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac os yw'r amgylchedd y maent am chwarae ynddo ar y pryd ag ymdeimlad rheoledig o ddiogelwch. Dydyn nhw chwaith ddim yn siarad am fod eisiau neu angen oedolion i reoli eu cyfleoedd i herio ac ymestyn eu hunain. Maent yn siarad am ymdeimlad o ddiogelwch cymdeithasol ble y maen nhw mewn rheolaeth ac yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn rhydd rhag bygythiadau o drais neu ymosodiad.

Pan ofynnwyd iddynt am ryddid i chwarae ym mhobman yr hoffent, dywedodd 88 y cant o blant eu bod yn gallu chwarae ym mhobman neu mewn rhai manau. Mae angen ymholiadau pellach i ddynodi pa amodau sy'n bodoli i ganiatáu i hyn ddigwydd.

## Casgliad

Tra ei bod yn braf gweld bod y mwyafrif o blant a holwyd yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser, lle a chaniatâd i chwarae, mae'n amlwg hefyd bod cyfle pellach i ymchwilio pa amodau sydd yn eu lle fydd yn arwain at lefelau da o fodlonrwydd. Mae'r diffyg gwybodaeth am amodau cynnal yr arolygon a'r diffyg ymchwilio pellach yn golygu ei bod yn anodd ffurfio casgliadau eglur.

Mae lleiafrif o blant yn dweud nad ydynt yn gallu chwarae gyda'u ffrindiau yn eu cymdogaethau. Gallai hyn awgrymu nad ydynt yn cyfranogi yn eu cymuned a'u bod, i raddau, yn teimlo nad oes ganddynt gysylltiad â hi.

Er gwaethaf nifer o ymatebion cadarnhaol, mae nifer o rwystrau wedi eu dynodi gan y plant hefyd, a bydd angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys peidio cael chwarae'r tu allan oherwydd ofnau rhieni ynghylch traffig, gormod o waith cartref, nosweithiau tywyll a bod yn brysur gyda gweithgareddau eraill. Caiff polisiau cynllunio, traffig, tai, manau agored, ysgolion a gofal plant effaith uniongyrchol ar gyfleoedd i chwarae yn eu cymdogaethau.

Mae'r hawl i chwarae'n allweddol i blentynod hapus ac iach ac mae'n amlwg bod nifer o lunwyr penderfyniadau'n gyfrifol am sicrhau y caiff yr hawl yma ei gwarchod, ei darparu ar ei chyfer a'i hyrwyddo'n weithredol.

# Chwarae trwy blentyndod

Mae chwarae'n hwyl ac yn fuddiol i ddysg a datblygiad iach plentyn ar bob oed. Bydd cael profiadau chwarae da'n helpu plant i ddatblygu sgiliau y gallant dynnu arnynt wrth iddynt dyfu'n oedolion ifainc ac ymlwybro trwy'r byd.

Yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn anogir rhieni i chwarae gyda'u plant. Bydd y chwarae cynnar yma'n helpu i greu cysylltiad rhwng rhieni a'u plant ac yn helpu plant i ddatblygu sgiliau iaith a chymdeithasol. Wrth i blant dyfu'n hŷn byddant yn ceisio mwy o annibyniaeth a byddant am chwarae gyda'u ffrindiau yn bellach i fwrdd oddi wrth eu rhieni.

## Chwarae o enedigaeth

Yn ystod y dyddiau cynnar hyn, gall rhieni gefnogi eu babanod trwy weithgareddau sy'n cymell y golwg, y clyw, cyffyrddiad a symudiad. Gall gemau wyneb, caneuon, symud ysgafn a chael pethau i gydio a chythru ynddynt helpu babanod a'u rhieni i feithrin cysylltiad. Mae hefyd yn gadael i fabanod wybod bod rhieni'n hwyl ac yn chwareus.

## Babanod yn chwarae

O chwe mis i flwydd oed, bydd gemau wyneb fel 'pi-po!' yn parhau i fod yn ffefrynnau gyda babanod – mae'n ffordd hwyliog a hawdd i gyflwyno ansicrwydd mewn ffordd syml. Mae'r babanod yn gallu symud mwy ac maent angen cropian, rowlio a symud o gwmpas. Maent yn defnyddio eu cyrff cyfan a'u synhwyrau i gyd (fel golwg, clyw a blas) i ddysgu am eu hunain, oedolion cyfarwydd a'r byd o'u hamgylch.

## Plant bach yn chwarae

Dyma'r adeg pan mae plant yn dysgu geiriau newydd a sut i siarad. Mae plant bach yn naturiol chwilfrydig ac mae eu sylw'n cael ei dynnu gan bethau newydd a gwahanol.

Mae'n bwysig chwarae gyda deunyddiau naturiol – caiff llawer o blant bach eu denu gan frigau, cerrig, dail, pridd, gwair, mwd a dŵr. Maent wrth eu bodd yn sbasio, padlo a baeddu. Maent yn dal i ddysgu mwy am eu synhwyrau – blasau, arogleuon a gweadau er mwyn eu helpu i ddysgu am eu byd.

Mae eu symudiad yn gwella ac maent yn chwilio am gyfleoedd i falansio, dringo, a chuddio o dan bethau (fel byrddau a chadeiriau). Gallwn gael ein temtio i roi stop ar hyn neu helpu, ond bydd caniatáu'r gweithgareddau hyn yn helpu plant bach i ddysgu am eu cyrff a'r hyn y gallant (ac na allant) ei wneud ar hyn o bryd.

## Y blynyddoedd cynnar (tair i bum mlwydd oed)

Mae plant ifanc yn dal i fwynhau bod y tu allan – maent yn cael eu denu gan lwyni, coed a glaswellt tal i chwilota ynddo. Maent yn dechrau mwynhau chwarae gyda'r elfennau – mae chwarae yn y glaw yn hwyl, a thyllu yn y tywod, rhedeg yn y gwynt a gwyllo'r tân.

Maent yn dechrau ceisio creu pethau gyda blociau adeiladu, darnau o ddefnydd a bocsys cardbord. Mae hyn yn helpu gyda chydysymudiad a dysgu am faint a siâp. Mae gallu chwalu pethau'n rhan o'r hwyl. Mae gwneud rhywbeth yn llawer pwysicach na'r cynnyrch terfynol i'r oed yma – pan fydd plentyn yn taro rhywbeth a'i chwalu, fydd o ddim yn ystyried ei fod yn ei 'ddifetha', felly ddylen ninnau ddim chwaith.

## Plant pump i wyth oed

Mae plant yr oedran yma'n dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau mwy strwythuredig ond, er eu bod yn mwynhau'r rhain, dylent ddal i gael digon o amser i ddewis sut, pryd a gyda phwy y maent am chwarae.

Mae'r plant yn dechrau bod yn fwy dychmygol yn eu chwarae. Dyma'r adeg hefyd pryd y gallai plant fwynhau chwarae'n wyllt gyda'u ffrindiau. Fydd hyn ddim yn hawdd i'w wyllo bob amser, oherwydd y gall edrych yn rhy debyg i ymladd. Ond bydd caniatáu'r math yma o chwarae'n helpu plant i ddysgu am eu cyrff eu hunain, eu cryfderau, a sut i ymateb i blant eraill y maent yn chwarae â nhw. Bydd hefyd yn helpu plant i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ddeall eu cyrff eu hunain a sut i ofalu amdanynt.



Mae chwarae'r tu allan yn dal i fod yn bleserus i'r oedran yma, ac mae'r plant yn dechrau magu awydd i fod yn fwy annibynnol. Mae hon yn adeg dda i helpu plant i ddod i adnabod eu cymdogaeth a'u cymdogion. Os bydd oedolion yn llai dibynnol ar deithio'n y car yn eu cymunedau lleol, fe ddaw'r plant i adnabod eu strydoedd lleol. Gall cerdded i ag o gyfleusterau lleol, fel y siopau, yr ysgol a'r parc, helpu rhieni i ddynodi datrysiadau gyda'u plant i'w cadw'n ddiogel pan ddaw'n amser iddynt fynd allan i grwydro'n fwy annibynnol.

## Plant wyth i ddeuddeg oed

Mae plant yn dal i fod yn greadigol iawn yn y cyfnod hwn – yn creu caneuon, dawnisiau ac eisiau defnyddio offer i adeiladu pethau.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau heriol i brofi eu hunain ac, yn y broses, maent yn dysgu sut i gadw eu hunain yn ddiogel. Weithiau bydd yn ymddangos eu bod yn chwarae'n rhy beryglus, ond mae'n bwysig cofio nad yw'r mwyafrif o blant am anafu eu hunain ac y bydd chwarae fel hyn yn eu helpu i sylweddoli yr hyn y maent yn gallu ei wneud, neu beidio.

Mae plant yr oed yma'n hoffi bod allan yn crwydro gyda'u ffrindiau ac maent yn dechrau bod awydd, a gallu, crwydro ymhellach o gartref.

## Plant yn eu harddegau

Mae ffrindiau a grwpiau o gyfeillion yn bwysig i blant yr oed yma a byddant am ymgasglu a chymdeithasu mewn parciau a mannau cyhoeddus eraill. Weithiau, gall hyn achosi tensiwn oherwydd, er eu bod efallai'n edrych yn rhy hen i fod yn chwarae mewn ardaloedd chwarae traddodiadol, bydd plant yn eu harddegau yn dal angen chwarae.

Mae hon yn adeg pan fydd plant yn chwarae gyda'u hunaniaeth – efallai y byddant am arbrofi gyda ffasiwn a newid steil eu gwallt ac archwilio gwahanol fathau o gerddoriaeth.

Bellach, mae perthnasau ar-lein yn rhan annatod o ddatblygiad plant yn eu harddegau. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn helpu plant i gadw mewn cysylltiad â'u ffrindiau, gwneud trefniadau gyda nhw, a themlo bod cysylltiad rhyngddynt. Mae'n hanfodol inni annog ymddygiadau priodol, sy'n berthnasol i'r byd ar-lein ac all-lein. Mae gofyn i blant yn eu harddegau beth maen nhw'n ei wneud ar-lein yn gwbl dderbyniol a bydd yn helpu rhieni i ddeall y cynnwys a'r sefyllfa.

# Plentyndod yn llawn chwarae

Bydd plant yn chwarae ble bynnag a phryd bynnag y gallant – ni waeth beth fo’u hoedran. Fe ofynnem i rieni plant o wahanol oed i rannu eu myfyrdodau a’u sylwadau ar chwarae eu plant. Dyma oedd ganddynt i’w ddweud am yr hyn sy’n eu synnu ynghylch sut y bydd eu plant yn chwarae.

Rhwng tua chwe mis a blwydd oed, fe wnaeth chwarae Eira droi’n gorfforol iawn a symud oddi wrth yr hyn y gallai llawer ei ystyried yn chwarae tuag at symud a sgiliau corfforol. Cefais fy synnu gan y newid yma o fabi i berson bach oedd yn cerdded ac archwilio’r byd mewn ffordd gorfforol iawn. Oedd, roedd hi’n chwarae gyda gwrthrychau ac yn cario nifer o bethau o gwmpas (gorau po fwyaf) ond roedd ei ffocws wrth chwarae’n cael ei yrru’n amlwg iawn gan ei symud o amgylch y gofod yn ogystal â symud gwrthrychau o amgylch y gofod.

## Jacky – Mam Eira sy’n flwydd oed

Rwyf wedi fy rhyfeddu pa mor fwriadol a llawn ffocws mae chwarae Eira. Oherwydd haelioni perthnasau a ffrindiau mae ganddi gasgliad teganau sydd tu hwnt i bob rheswm. Er hynny, fe fydd hi byth a hefyd yn dewis o ddetholiad bychan ohonynt. Wedi cyfnod o ddyddiau, neu wythnosau, mae’n ymddangos bod ei diddordeb mewn tegan yn pylu a bydd yn ei anwybyddu’n llwyr, ni waeth pa mor boblogaidd oedd y tegan o’r blaen, a phrin iawn y bydd hi’n mynd yn ôl ato. Alla’ i ddim penderfynu os yw hi’n cael ei hysgogi gan awydd am newydddeb neu ei bod yn mynd yn rhy hen iddyn nhw. Beth bynnag, mae hi’n llawer mwy cyson yn ei dewisiadau na fyddwn i wedi disgwyl yn ei hoed hi.

## Owen – Tad Eira sy’n flwydd oed

Cymraeg yw iaith yr aelwyd. Ond, rydw i wedi sylwi y bydd Efan yn chwarae yn Saesneg weithiau. Wrth gwrs, mae wedi cyfathrebu yn Saesneg o’r blaen – boed gyda pherthynas, ffrindiau yn yr ysgol neu weithiwr mewn siop. Ond ar yr adegau hyn mae’n ddihyder ac mae ei eirfa’n wan a’i frawddegau’n dameidiog. Ond pan mae’n chwarae, mae’n siarad yn rhwydd ac mae ei frawddegau’n gywir ac yn gwneud synnwyr.



Eira chwareus, sy’n flwydd oed

Y cyfan alla’ i ei feddwl yw mai ei hoffter o raglenni teledu Saesneg yw’r rheswm pam ei fod yn chwarae yn Saesneg. Ond ni waeth beth fo’r rheswm, rwy’n falch bod ei ail iaith yn ffynnu tra’i fod yn cael hwyl fawr wrth chwarae.

## Manon – Mam Enlli sy’n flwydd oed ac Efan sy’n bedair oed

Yr hyn sydd wedi fy synnu fwyaf yw lefel y wybodaeth y gall plentyn ei ddysgu trwy chwarae, yn enwedig mewn cyfnod mor fyr. Bydd pobl yn dweud bod plant fel sbwnjis ond mae profi hyn drosoch eich hun yn rhyfeddol. Mae gallu cofio enwau chwaraewyr pob tîm pêl-droed yn yr Uwch Gynghair, i greu twneli cyfrinachol a deall mecaneg *Minecraft* yn anhygoel yn chwech oed!

## Ruth – Mam Lucas sy’n chwech oed



Rydw i'n gwirioni sut y maen nhw'n siarad yn uchel â'u hunain wrth chwarae gyda doliau – rwy'n cymryd mai dim ond hanner y saga fawr sy'n digwydd yn eu pennau ddaw allan ar lafar. Fe fyddwch chi'n clywed ambell air yma ac acw fel *'bydd yn ofalus...'* neu *'hwrê, dwi wedi ennill'* neu ambell i effaith sain.

#### Alex – Mam Elliott sy'n bump oed a Bella sy'n saith oed

Mae rhaid i'n Llew ni chwarae o amgylch ein hamserlen waith, yn ogystal â'i amserlen chwaraeon brysur ei hun. Fel plentyn naw mlwydd oed mae'n treulio llawer o'i amser chwarae gyda'i frodyr a hynny'n bennaf, er mawr fy nghywilydd, ar y cyfrifiadur, ffôn symudol neu'r consol. Fe fyddwn ni'n cyfyngu ar yr amser y maen nhw'n chwarae'r gemau hyn yn ystod yr wythnos. Mae'n barod iawn i chwarae yn yr ardd neu'r parc lleol, ond gan amlaf bydd eisiau gêm gystadleuol, nid dim ondocio pêl o gwmpas. Mae ein cartref yn cael ei hambygio ganddo gan mai dyma ei faes chwarae, ond mae'n ei gadw'n hapus! Y syndod pennaf yw hoffter Llew o chwarae cardiau neu gemau bwrdd gyda'r teulu – a gorau po fwyaf o chwaraewyr!

#### Ian – Tad Llew sy'n naw oed

Roedd fy meddyliau cyntaf am chwarae Martha'n gryn sioc. Ydi fy merch 11 oed hyd yn oed yn 'chwarae' o gwbl bellach? Mae'n iawn, mae hi, ond mae ei syniad hi o chwarae'n gysylltiedig â bod y tu allan yn yr ysgol neu pan fydd ffrind yn dod draw. Yn ei hoed hi, mae hyn yn cynnwys llawer o ddawnsio a'r amser sgrin anorfod y mae hi'n bendant yn ei ystyried yn chwarae. Dydw i ddim yn siŵr fy mod yn rhannu ei barn. Mae'n destun pryder i mi bod Martha yn ymddangos fel ei bod yn amharod iawn i ledu ei hadenydd o ran anturiaethau / chwarae awyr agored annibynnol. Yn wahanol i'w brawd a'i chwaer hyn pan oedden nhw'i hoed hi, mae'n ymddangos fel bod ganddi ofn mentro allan. Rydyn ni hyd yn oed yn ei galw'n Miss Iechyd a Diogelwch! Arwydd o'r oes efallai?

#### Vicky – Mam Martha sy'n un ar ddeg oed

Mae fy merch yn 12 oed bellach, ac mae wedi bod yn chwarae allan mwy a mwy yn ein cymuned dros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf. Roeddwn i'n gwybod y byddai rhaid imi fod yn ddewr pan godai'r mater ei bod hi am chwarae allan gyda'i ffrindiau a, phan ddaeth yr amser, roedd fy nghalon yn fy ngwddf, ond mae wedi bod yn agoriad llygad i'r ddau ohonom. Wrth i'w hannibyniaeth hi, ac annibyniaeth ei ffrindiau dyfu, maen nhw'n treulio mwy o amser gyda'i gilydd yn y parc, y siopau, y traeth neu jesd yn cymdeithasu – ac rwy'n gwybod bod nhw i gyd yn gofalu am ei gilydd. Wrth gwrs rwy'n cael ambell alwad ar fy ffôn symudol pan fydd rhywbeth wedi rhoi ysgytwad iddi ond, ar y cyfan, mae hon wedi bod yn daith i'r ddau ohonom tuag at ei rhyddid a'i hannibyniaeth cynyddol hi a fy nysg i wrth ymddiried yn ei gwytnwch hi i chwarae allan.

#### Martin – Tad Molly sy'n ddeuddeg oed



Lucas yn chwarae ar faes chwarae ei ysgol



Elliott a'i ffrind yn mwynhau'r eira

# Chwarae allan ac o gwmpas

Jane Hawkshaw a'i phlant Isobelle a Ben, sydd yn eu harddegau, sy'n sôn wrthym sut beth yw chwarae yn eu cymuned yn Rhondda Cynon Taf. Mae Jane yn Swyddog Cyflenwi'r Cwricwlwm gydag Addysg Oedolion Cymru ac mae'n gwirfoddoli gyda'i chynllun chwarae lleol.

Fel rhiant ac fel Gweithwraig Ieuenctid a Chymunedol, rwyf wastad wedi gwerthfawrogi pwysigrwydd sicrhau bod gan blant a phobl ifanc le i chwarae yn eu cymuned leol. Ond, dim ond pan gefais gyfle i weithio gyda Chwarae Cymru o 2007 i 2010, wnes i ddysgu'n iawn am bwysigrwydd chwarae a'r effaith y mae'n ei gael ar iechyd a lles plentyn, a'i berchnogaeth o'i gymuned leol.

Gan fod gennyf ddau blentyn ifanc fy hun, fe ddysgais trwy fy mhiant yr hyn y mae chwarae'n ei olygu iddyn nhw. Mae'r ddau wrth eu bodd yn mynd allan, chwarae yn y mwd, chwarae mewn pyllau, dringo coed, cymryd risg a mynd ar anturiaethau.

## Mae fy mhiant bellach yn 12 a 14, a dyma maen nhw'n ei feddwl:

*'Pan fyddwn ni'r tu allan fe allwn ni ddringo a theimlo'n rhydd.'*

**Ben, 12 oed**

*'Pan fyddwn ni'n chwarae'r tu allan fe fyddwn ni'n profi pethau newydd ac yn dysgu sdwff newydd, mae gyda ni fwy o hyder i siarad gyda phobl, a'r tu allan fe fyddwn ni'n creu ein hwyl ein hunain.'*

**Isobelle, 14 oed**

Yn ein cymuned leol, rydym yn ffodus bod gennym gynllun chwarae sy'n cael ei redeg gan Brosiect Datblygu Cymunedol Llanharan (LCDP) sy'n annog chwarae rhydd ac sy'n cynnig lleoliad chwarae mynediad agored ar gyfer plant pump i bedair ar ddeg oed. Bydd Ben ac Isobelle yn gwirfoddoli yn y cynllun chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol.

*'Bod y tu allan yw'r lle perffaith i blant fod yn blant gyda'r rhyddid i redeg, hercian a sgipio. Trwy fynd allan mae'n cefnogi eu chwarae, all eu helpu i ddatblygu llawer o sgiliau.'*

**Isobelle**



Mae rhai rhwystrau i chwarae yn ein cymuned fel ffyrdd prysur a thraffig cyflym ar y ffordd at y cynllun chwarae. Mae llawer o rieni am i'w plant gadw'n lân a thaclus ac fe fyddan nhw'n dweud wrth y gweithwyr chwarae nad ydyn nhw i fynd i lawr i'r coed! Mae hyn yn rhwystro'r plant rhag profi'r gorau sydd gan yr awyr agored i'w gynnig.

Mae fy mhiant i wedi arfer chwarae'r tu allan ac maen nhw'n mwynhau adeiladu cuddfannau a siglenni ar y coed ar draws y nant fechan yn ein coedwig leol. Fel rhieni, mae wedi cymryd amser i fy ngŵr a minnau roi caniatâd ac rydyn ni'n teimlo ein bod yn gwneud y penderfyniad cywir yn gadael iddyn nhw grwydro ymhellach a phellach oddi wrth y tŷ heb oruchwyliaeth oedolion. Rwyf wedi sylwi bod teuluoedd rhai o'u ffrindiau'n anfodlon gollwng gafael a chaniatáu amser a lle i'r plant archwilio'r byd ar eu pen eu hunain. Mae'n bwysig eu galluogi i fagu'r hyder yma a chynyddu eu gwytnwch a'u gallu i archwilio'r byd o'n hamgylch.

Pan oedd fy mhiant yn iau fe fyddwn i'n archebu lle iddyn nhw mewn clwb dros y gwyliau ac roedd rhai lleoliadau'n ofnadwy. Byddai'r plant yn dweud nad oedden nhw am fynd yno oherwydd, yn eu geiriau nhw, *'Dwi'n ei gasáu, dydyn ni ddim yn chwarae'r tu allan'*. Rwy'n lwcus yn fy swydd i fy mod yn cael cyfle i fod yn rhan o'r lleoliadau chwarae ac o ganlyniad mae'r plant wedi tyfu i fyny'n mynychu gwahanol leoliadau gyda fi, ac maen nhw'n gwybod ble maen nhw'n teimlo hapusaf – a'r tu allan yw hynny!

# Galluogi Chwarae:

## Symposiwm Technoleg Gynorthwyol a Dysgu Trwy Chwarae

Mae'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Technoleg Gynorthwyol (APPGAT) yn anelu i rannu gwybodaeth, creu trafodaeth a hwyluso ymgysylltiad ar dechnoleg gynorthwyol ymysg Aelodau dau Dŷ'r Senedd. Mae'n eiriol y gall technoleg gynorthwyol (AT) ddatgloi byd yn llawn chwarae ar gyfer plant anabl.

Gall chwarae a hwylusir trwy dechnoleg gynorthwyol ganiatáu i rieni, gweithwyr chwarae proffesiynol ac athrawon ennill dealltwriaeth o ddatblygiad plentyn. Mae'r grŵp wedi mesur potensial defnyddio technoleg gynorthwyol i gefnogi plant i ennill mynediad i gyfleoedd chwarae.

Y tri phrif dechnoleg a ystyriwyd oedd switshys, syllu â'r llygad a chymorth cyfathrebu. Gellir cysylltu switshys hygyrch, a ddefnyddir gan bobl â rheolaeth motor neu symudiad cyfyngedig, â theganau neu gemau. Mae defnyddio'r switshys wrth chwarae'n ffordd dda i blant ddysgu am achos ac effaith, a hefyd i ddysgu sut i weithio'r switsh.

Mae syllu â'r llygad yn ddull ar gyfer rheoli cyfrifiadur trwy edrych ar wahanol adrannau o'r sgrîn – ceir gemau sy'n caniatáu i blant ddatblygu sgiliau defnyddio syllu â'r llygad. Defnyddir cymhorthion cyfathrebu gan bobl sydd un ai ddim yn siarad o gwbl neu sydd â diffyg llferydd. Bydd y defnyddiwr yn dewis eitemau o fwrdd o'u blaen a bydd hyn yn cynhyrchu llferydd synthetig. I blant sydd eu hangen, caiff cymhorthion cyfathrebu eu defnyddio yn llawer o'u chwarae.

Ym mis Tachwedd 2017, ymunodd Marianne Mannello, Cyfarwyddwraig Gynorthwyol Chwarae Cymru, banel o siaradwyr mewn symposiwm APPGAT ar dechnoleg gynorthwyol a chwarae ar gyfer plant anabl.

Trafododd y panelwyr werth technoleg gynorthwyol ar gyfer chwarae, y rhwystrau i gael mynediad i'r dechnoleg yma'n y blynyddoedd cynnar, a sut y gallwn lunio polisiau i roi cyfle i bob plentyn chwarae. Un o'r themâu allweddol oedd potensial technoleg gynorthwyol i alluogi chwarae ar gyfer dysgu a datblygu.

Ar yr un pryd, pwysleisiodd y siaradwyr werth allweddol chwarae fel mynegiant o annibyniaeth a dewis, cyfle i dderbyn her, a chyfathrebu gyda'u cyfoedion. Ond yn ystod y trafodaethau, clywyd nad yw llawer o blant yn cael cyfle i ddefnyddio technoleg gynorthwyol cyn dechrau'r ysgol. Pwysleisiwyd bod plant a rhieni angen cefnogaeth i ddod o hyd i dechnoleg sy'n gweddu i'w anghenion ac y dylai darparu technoleg gael ei wreiddio yn rhwydwaith cefnogaeth y plentyn.

Clywodd y grŵp am argymhellion grymus i chwalo rhwystrau i chwarae. Roedd y rhain yn cynnwys mabwysiadu model o ddeddfwriaeth digonolrwydd cyfleoedd chwarae Cymru yn Lloegr, creu cyllideb benodedig ar gyfer technoleg gynorthwyol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, cefnogi rhwydweithio ymysg gwasanaethau sy'n



ymweld â'r cartref er mwyn rhannu ymwybyddiaeth am dechnoleg gynorthwyol, a gweithio gydag ysgolion a llyfrgelloedd i ddarparu technoleg gynorthwyol mewn lleoliadau chwarae.

Yn bresennol yn y symposiwm hefyd oedd Lisa Rees-Renshaw, Athrawes Ymgynghorol Technoleg Gynorthwyol yn Ysgol Y Deri, Penarth, Bro Morgannwg – ysgol a adeiladwyd i'r pwrpas ar gyfer disgyblion tair i 19 oed sydd ag amrywiaeth eang o anawsterau corfforol, dysgu, meddygol a chyfathrebu.

### Disgrifiodd Lisa sut y mae Ysgol Y Deri yn cefnogi plant i brofi ystod eang o dechnoleg gynorthwyol:

*'Mae'r ysgol yn falch o'n tîm amlddisgyblaethol ymroddedig a llwyddiannus sy'n helpu i ddarparu'r mynediad mwyaf effeithlon â phosibl i dechnoleg i'r disgyblion. Mae gennym berthynas agos iawn gyda'r rhieni ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth ac yn cynnwys y rhieni yn y broses o asesu a darparu offer i gynorthwyo eu plentyn fel bod offer yn gallu mynd adref a bod rhieni'n teimlo'n hyderus y gallant gynnig cefnogaeth effeithlon i'w plentyn.*

*Un o feysydd allweddol ein gwaith ar hyn o bryd yw hwyluso chwarae gyda thechnoleg gynorthwyol. Mae hyn yn cynnwys creu gweithgareddau chwarae yn y modd mwyaf corfforol hygyrch ar gyfer y plentyn a defnyddio technoleg i annog cyfathrebu a chwarae rhyngweithiol. Mae'r sesiynau chwarae'n llwyddiannus ac mae'r plant yn arddangos eu dawn i reoli eu hamgylchedd, cyfathrebu eu syniadau a chael hwyl trwy'r amser.'*

# Cyfweliad gyda'r Gweinidog Plant

Mae Huw Irranca-Davies, yr Aelod Cynulliad dros Ogwr wedi ei benodi'n Weinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant – sy'n cynnwys bod yn gyfrifol am chwarae plant. Cawsom sgwrs ag e'n ddiweddar am ei atgofion chwarae a'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni dros gyfleoedd chwarae plant yng Nghymru.

## Beth yw eich hoff atgofion chwarae?

Mae cwpwl o enghreifftiau gwahanol iawn yn sefyll allan. Fel plentyn yn tyfu lan yn y 60au, mae gen i gof byw iawn o fy mrawd a minnau'n chwarae gêm hen ffasiwn dros ben sef 'cowbois', yn rhedeg o amgylch yr ardd wedi gwisgo lan yn y dilladach i gyd, rhedeg draw i'r coed y tu ôl i'r tŷ a rhedeg yn ôl ac ymlaen rhwng y llwyni yn esgus saethu at ein gilydd. Fe alla' i hyd yn oed gofio pwysau'r gwn bach tegan yn fy llaw a'r ffrils ar wain y dryll.

Roedden ni'n byw ar gyrion coedwig yn Nhre-gŵyr ac roedd fy mrawd a minnau wrth ein bodd yn dringo, ac fe fyddai ein rhieni'n gadael inni ddal ati. Roedden nhw'n hapus i adael inni fynd allan o'r tŷ, inni fynd o dan draed, ac fe fydden ni'n dringo coed. Un diwrnod, gyraeddais i ddim i'r top ond fe wnaeth fy mrawd – mae'n rhaid ei fod e' tua 13 oed a minnau'n 10. Mae'n debyg bod y goeden tua 60 troedfedd o uchder ac fe glymodd e' faner i'r brigyn uchaf! Wrth gwrs roedd ein rhieni, yn gwbl ddealladwy, yn grac iawn pan ddysgon nhw beth oedden ni wedi ei wneud! Amseroedd da iawn.

Gan fod ein teulu'n fawr – roedd gennym fodrybedd ac ewythrod a mamgus a thadcus ar draws y pentref i gyd – byddai ein rhieni'n ein hannog i fynd allan a chwarae gyda'n ffrindiau, archwilio'r pentref, i fyny yn y coed ac allan yn y caeau a tharo i mewn i dŷ perthynas, cyn belled nad oedden ni'n mynd i helynt mawr. Roedd gwir anogaeth i fynd a bod yn anturus a mwynhau.

Rwy'n cofio'n glir iawn, 'doedd yna fyth unrhyw gyfyngiadau heblaw inni gadw allan o helynt. Y drefn oedd mynd allan, anturio, mwynhau, dod adref gyda phengliniau budron, ambell i grafiad a chlais ond dim byd rhy ddifrifol. O edrych yn ôl, rwy'n gweld pa mor bwysig oedd hynny.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Fe dyfon ni lan heb ofn ac yn fodlon rhoi tro ar bethau a dioddef yr ergydion a'r crafiadau hynny a sylweddoli ei fod yn rhan o dyfu i fyny.

**Mae Chwarae Cymru'n dathlu ei 20<sup>fed</sup> pen-blwydd eleni – adeg i fyfyrion ar newidiadau i gyfleoedd chwarae plant. O'ch profiad personol chi, ble fydd plant yn chwarae yn eich cymuned heddiw? Sut mae hyn yn wahanol i pan oeddech chi'n tyfu i fyny?**

Dwi'n credu ei fod yn wahanol. Mae'r canfyddiad o berygl a risg yn ymddangos fel pe bae'n wahanol iawn heddiw – mae agweddau rhieni tuag at ganiatáu i'w plant fynd allan i chwarae wedi newid. Mae'n hawdd deall mewn ffordd. Mae ein setiau teledu'n llawn hanesion am beryglon bod yn rhieni ac yn sicr mae newidiadau'n gysylltiedig â'n hamgylchedd adeiledig o ran traffig. Mewn gwirionedd, weithiau mae'r canfyddiadau hynny'n llawer mwy na'r risg go iawn – mae hynny'n cyfyngu'n arw ar y plant a pharodrwydd rhieni i ganiatáu i'w plant fynd allan i anturio ac archwilio.

*'Mae pob un ohonom am i Gymru fod yn wlad ble mae gan blant a phobl ifanc ystod amrywiol o gyfleoedd chwarae heriol a diddorol.'*

Mae agweddau cymunedol wedi newid hefyd. Mae angen inni fod yn llawer mwy doeth wrth ddylunio cymunedau sy'n fwy cyfeillgar tuag at blant – mae hynny'n cynnwys dyluniad ein hamgylchedd adeiledig a phensaernïaeth strydoedd ond hefyd gadael rhai mannau'n anorffenedig. Rwy'n gefnogwr brwd o fannau anorffenedig a chwarae sy'n gwbl rydd, yn hytrach na chwarae sydd wedi ei drefnu gaiff ei wasgu i mewn i ardaloedd bychan iawn. Rydyn ni angen y mannau anorffenedig hyn yn ein cymunedau, nid dim ond y parciau hardd a darpariaeth chwarae adeiledig. Rydyn ni angen y mannau hynny sy'n ymylon garw cymunedau, ble y gallwch fynd ar antur, ble y gallwch chwarae o gwmpas gyda'ch ffrindiau a gwneud hynny yng nghlyw eich rhieni, ffrindiau, perthnasau a chymdogion.

Y newid sylweddol arall sydd yn effeithio ar blant y dyddiau hyn yw atyniad cryfach technoleg – y teledu oedd yr un wrth i mi dyfu lan – nawr mae'n cynnwys ffonau symudol, llechi a gliniaduron. Rhywsut, mae angen i ni fel rhieni, ac fel cymuned, fynd yn ôl at y syniad hwnnw o annog plant i gael yr anturiaethau hynny go iawn trwy chwarae a mynd allan i brofi'r hyn sydd allan yna, yn debyg i pan oeddwn i'n tyfu lan. Magu'r hyder i ddiodeff ambell i grafiad ac anaf, ambell i ddeigryn ac yna codi lan a bwrw ymlaen â phethau fel rhan o dyfu i fyny. Os na chawn ni hynny, rydyn ni'n colli rhywbeth pwysig iawn yn ein bywydau ifanc.

## **Llongyfarchiadau ar eich penodiad fel y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant newydd. Beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni fel rhan o'ch portffolio â chyfrifoldeb am chwarae plant?**

Diolch yn fawr. Mae'r portffolio yma'n un arbennig. Mae gen i hanes maith gyda chwarae. Mewn gyrfa flaenorol roeddwn i'n weithiwr proffesiynol yn y diwydiant hamdden. Roedd chwarae yn un o'r meysydd yr oeddwn yn gweithio ynddo fel ymarferydd a darlithydd cyn mynd yn wleidydd. Mae Chwarae Cymru wedi bod yn fudiad pwysig iawn o ran fy nealltwriaeth o chwarae dros y degawdau diwethaf.

Fe hoffwn i longyfarch Chwarae Cymru ar gyrraedd ei 20<sup>ed</sup> pen-blwydd – rwyf wedi ei wyllo'n tyfu a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Daliwch ati i wneud

yr hyn yr ydych yn ei wneud i geisio ein datblygu'n Gymru chwarae-gyfeillgar. A dyna pam ei bod yn bleser cadarnhau parhad ein hariannu ar gyfer Chwarae Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer Cymru yw y dylen ni barhau i ddatblygu fel cenedl chwarae-gyfeillgar a deall pwysigrwydd chwarae ac yna rhoi'r mesurau yn eu lle fydd yn caniatáu cyfleoedd amrywiol i ystod eang o blant a phobl ifanc chwarae wrth iddynt dyfu.

Rydyn ni'n ehangu ar yr hanes blaenorol yna gan mai ni oedd y wlad gyntaf i ddeddfu dros chwarae. Bu cyflwyno'r Mesur Plant a Theuluoedd yn 2010 yn garreg filltir bwysig iawn, gan gyflwyno gofynion o ran digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Fe gododd y cyfarwyddyd statudol, *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, o hynny, gan gyfeirio awdurdodau lleol i edrych ar amrywiol anghenion pob plentyn a pherson ifanc, yn cynnwys rhai sydd ag anabledau.

Fy ngweledigaeth i, ac yn sicr fel Gweinidog, yw y dylen ni weithio gyda'n gilydd i gydnabod, deall a throsglwyddo ar bwysigrwydd chwarae ym mywydau plant – gan ddarparu cyfleoedd i chwarae gartref, gyda ffrindiau, ac allan yn y gymuned. I gael arweinyddion cymunedol, a phobl eraill sy'n gweithio a gwirfoddoli yn y gymuned, i ddarparu cyfleoedd chwarae hefyd. Gall eu rolau gyfrannu at gefnogi chwarae a gwneud cymdogaethau a strydoedd lleol yn fwy chwarae-gyfeillgar. Mae hon yn gryn gennad, er ein bod wedi adeiladu sylfaen gref yma yng Nghymru.

A'r rheswm pam fod angen inni wneud hyn? Oherwydd ein bod yn gwybod mai chwarae sy'n helpu plant i ddatblygu gwytnwch wrth iddynt dyfu, a dyfeisgarwch pan fyddant yn wynebu sefyllfaoedd anodd wrth iddynt dyfu'n hyn. Cyfleoedd i chwarae fydd yn eu helpu i ddatblygu i fod yn oedolion gwydn a dyfeisgar.

Mae pob un ohonom am i Gymru fod yn wlad ble mae gan blant a phobl ifanc ystod amrywiol o gyfleoedd chwarae heriol a diddorol, ble y gallan nhw fwynhau eu hamser hamdden a ble y gallant dyfu'n ddiogel a hyderus trwy gydol eu plentyndod.

Un o fy rolau fel Gweinidog yw gweithio ar draws y Llywodraeth gyfan gyda fy nghydweithwyr ym mhob adran, gyda llywodraeth leol, tai, addysg ac eraill, awdurdodau lleol, y drydedd sector ac amrywiaeth eang o bartneriaid i sicrhau bod pawb yn deall buddiannau chwarae a gweithio gyda'n gilydd i wella cyfleoedd chwarae plant ar draws Cymru gyfan.

*'Mae angen i ni fel cymuned, fynd yn ôl at y syniad hwnnw o annog plant i gael anturiaethau go iawn trwy eu chwarae.'*

# Datblygu'r gweithlu

## 20 mlynedd o hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru

Ers ein sefydlu fel elusen ym 1998, mae Chwarae Cymru wedi ceisio cefnogi'r sectorau chwarae a gwaith chwarae gyda hyfforddiant a chymwysterau sy'n ysbrydoledig, rhyngweithiol a diddorol. Er na fu hynny'n hawdd bob tro, mae'r darlun ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi gwella'n raddol ac rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn ateb anghenion newidiol y gweithlu.

### 1998 – 2004

Cychwynnodd Chwarae Cymru ei waith ar ddatblygu'r gweithlu trwy gydweithio gydag uned gwaith chwarae'r sefydliad hyfforddiant ar gyfer y Galwedigaethau Chwaraeon, Hamdden a Galwedigaethau Cysylltiedig (SPRITO). Yn ddiweddarach byddai gwaith SPRITO yn dod o dan adain SkillsActive, y cyngor sgiliau sector dros waith chwarae.

Yn 2001, cyhoeddwyd *Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae a'i ddilyn*, flwyddyn yn ddiweddarach, gyda'r uwch-fframwaith, *Yr Hawl Cyntaf – prosesau dymunol*. Mae'r ddau gyhoeddiad yn darparu trosolwg da o waith chwarae a sut i hunanasesu arfer gwaith chwarae. Ers 2002, mae Chwarae Cymru wedi cyflogi aelod o staff i arwain ar ddatblygu'r gweithlu'n benodol.

Yn 2004, derbyniodd Chwarae Cymru ariannu oddi wrth Lywodraeth Cymru i adolygu gwerthoedd a thybiaethau gwaith chwarae ar ran sector gwaith chwarae'r DU. Arweiniodd y gwaith yma at gynhyrchu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae sydd wedi ffurfio agwedd y sector tuag at hyfforddiant gwaith chwarae fyth ers hynny.

### 2005 – 2007

Yn dilyn cynhyrchu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, daeth yn amlwg y byddai hyfforddiant newydd yn fuddiol er mwyn archwilio sut i roi ethos *Yr Hawl Cyntaf* a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae ar waith. Y bwriad oedd datblygu hyfforddiant fyddai'n cyfuno'r wybodaeth, yr arfer a'r myfyrdod sy'n allweddol ar gyfer hwyluso chwarae plant yn llwyddiannus ac fyddai'n ehangu ar gyfleoedd hyfforddi eraill yr oeddem wedi eu datblygu, fel 'Mud and Sparks'. Fe wnaeth cais llwyddiannus gan bartneriaeth CWLWM i'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF) alluogi Chwarae Cymru i weithio gydag arbenigwyr o'r sector a sefydliadau gofal plant eraill yng Nghymru, i ddatblygu cyfres gydlynol o gymwysterau gwaith

chwarae – fyddai, yn y pen draw, yn troi'n gwrs Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>).

Yn 2007, enillodd Chwarae Cymru ariannu pellach i sefydlu Gwaith Chwarae Cymru – y ganolfan genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant gwaith chwarae. Roedd y gwaith allweddol a wnaethpwyd gan Gwaith Chwarae Cymru'n cynnwys cwblhau adnoddau dysgu ac addysgu lefel 2 ar gyfer P<sup>3</sup>, sicrhau bod P<sup>3</sup> ar gael fel cymhwyster cydnabyddedig a chynnal yr arolwg mwyaf erioed o'r gweithlu gwaith chwarae yng Nghymru. Yn anffodus, oherwydd ddiffyg ariannu, ni fu modd i'r ganolfan hyfforddi genedlaethol gynnal ei hun ar ôl 2010.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, cynhaliwyd y Fforwm Gweithwyr Chwarae cyntaf erioed yn 2007 fu, ac sy'n parhau i fod, yn gyfle datblygiad proffesiynol gwerthfawr ar gyfer gweithwyr chwarae rheng flaen, sy'n darparu cyfle i ddysgu, myfyrio a derbyn cefnogaeth cymheiriaid mewn digwyddiad hyfforddi deuddydd yn yr awyr agored.

### 2008 – 2014

Golygodd rhaglen Chwarae Plant y Gronfa Loteri FAWR bod prosiectau gwaith chwarae ar gynnydd ar draws Cymru ac y byddai chwistrelliad newydd o weithwyr chwarae i'r gweithlu'n gallu elwa o'r hyfforddiant a'r cymwysterau oedd ar gael. Yn ystod y cyfnod hwn, parhaodd Chwarae Cymru i ddatblygu a throsglwyddo cymwysterau lefel 2 a 3 P<sup>3</sup> a chreu'r fframwaith o hyfforddwyr ac aseswyr gwaith chwarae. Wrth i'r prosiectau gwaith chwarae yma ddirwyn i ben, penderfynodd nifer o ardaloedd yng Nghymru leihau'r lefel o ddarpariaeth blwyddyn gron o blaid cynnal gwasanaeth oedd yn darparu chwarae dros y gwyliau.

### 2015 ymlaen

O ganlyniad i doriadau yng nghapasiti Chwarae Cymru, fe wnaethom sefydlu partneriaeth bositif gyda Choleg Cymunedol YMCA Cymru (a elwir bellach yn

Addysg Oedolion Cymru) er mwyn parhau i drosglwyddo P<sup>3</sup>. Cyflwynodd y trefniant yma bosibiliadau ariannu newydd a'n galluogi hefyd i elwa o'u trefniadau sicrhau ansawdd cadarn.



Yn 2015, yn dilyn newidiadau i reoleiddio gofal plant i gynnwys darpariaeth ar gyfer plant hyd at 12 oed, ariannodd Llywodraeth Cymru Chwarae Cymru i ddatblygu Dyfarniad mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS). Bwriedir y dyfarniad hon ar gyfer pobl sy'n rheoli cynlluniau chwarae tymor byr dros y gwyliau sy'n meddu ar gymwysterau lefel 3 perthynol eraill ond sydd angen y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n benodol i waith chwarae. Roeddem yn falch i allu gweithio ar y prosiect yma gydag Agored Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, SkillsActive a Choleg Cymunedol YMCA Cymru. [www.chwaraecymru.org.uk/cym/mahps](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/mahps)

Y flwyddyn ganlynol, derbyniom ariannu pellach i ddatblygu'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) sydd wedi derbyn ymateb rhagorol oddi wrth bobl yn y sector gwaith chwarae yn ogystal â dysgwyr sy'n gweithio mewn amrywiol feysydd, o chwaraeon i waith ieuenctid. [www.chwaraecymru.org.uk/cym/l2app](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/l2app)

## Edrych i'r dyfodol...

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal peilot o'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDAPT) (a achredwyd gan Agored Cymru) sy'n anelu i sicrhau bod hyfforddwyr gwaith chwarae'n meddu ar sgiliau ychwanegol, ynghyd â'u cymhwyster addysgu, er mwyn gwneud hyfforddiant gwaith chwarae'n wirioneddol drawsnewidiol i ddysgwyr. [www.chwaraecymru.org.uk/cym/addapt](http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/addapt)

Mae ein partneriaeth gydag Addysg Oedolion Cymru yn parhau i dyfu ac mae'n sicrhau bod ariannu'n cael ei ryddhau ar gyfer trosglwyddo'r cymwysterau hyn. Gellid dadlau bod y bartneriaeth hon yn parhau â gwaith y ganolfan genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant



gwaith chwarae. Eleni, rydym yn cydweithio hefyd i sicrhau bod asesu ar-lein ac adnoddau dysgu ychwanegol ar gael trwy ddefnyddio'r platfform addysgol, Moodle.

## Adolygiad o P<sup>3</sup>

Mae Chwarae Cymru wedi dynodi ariannu i adolygu cymwysterau lefel 2 a 3 Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P<sup>3</sup>).

Datblygir y cymwysterau newydd gydag Agored Cymru, y corff dyfarnu dros Gymru, yn hytrach na gyda'r Scottish Qualifications Authority (SQA), fel yn y gorffennol.

Bydd y cymwysterau newydd yn ymgorffori'r ddwy wobr lai o faint a ddatblygwyd gennym eisoes gydag Agored Cymru – sef L2APP a MAHPS, fel unedau. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr sydd eisoes wedi ennill y gwobrau hyn wedi cwblhau rhan o'r P<sup>3</sup> newydd yn barod.

Bydd y P<sup>3</sup> newydd yn wahanol ar gyfer dysgwyr, yn seiliedig ar adborth oddi wrth diwtoriaid, dysgwyr ac aseswyr, ond bydd yn dal i ddefnyddio'r adnoddau dysgu ac addysgu cynhwysfawr a ddatblygom gydag ariannu Ewropeaidd. Bydd y cymwysterau newydd ar gael i'w trosglwyddo o fis Medi 2019.

## Ac i gloi

Mae'n anodd gwybod yr hyn sydd yn y dyfodol i waith chwarae, ond rydym yn dal i fod yn bositif y bydd y datblygiadau yr ydym yn gweithio arnynt ar hyn o bryd yn ymateb i anghenion newidiol y sector ac yn sicrhau y bydd hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae o safon yn parhau i fod ar gael i weithwyr chwarae Cymru (a thu hwnt).

# Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar

Sian Lile-Pastore o Amgueddfa Cymru sy'n dweud wrthym sut y mae ardal chwarae 'Yr Iard' wedi ei hadnewyddu'n greadigol yn Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd er mwyn dwyn chwarae, hanes a chelf ynghyd.

st fagans  
sain fagan  
amgueddfa  
werin  
cymru  
national  
museum  
of history

Wrth imi ysgrifennu'r darn yma, mae'n hanner tymor mis Chwefror, ac mae'r ardal chwarae newydd yn llawn plant – maen nhw'n chwarae ar y siglenni, yn dringo'r rhaffau ar y ffrâm ddringo ac yn chwarae yn y tywod. Ond yr hyn yr ydw i wedi mwynhau ei weld fwyaf yw eu bod hefyd yn ei ddefnyddio fel rhywle i fod – yn segura ar y creigiau, neu'n bwyta cinio ar y meinciau a'r ardal dweud straeon o dan goeden fawr.

Fe agorwyd yr ardal chwarae ddiwedd 2017 wedi dwy flynedd o ymchwilio, dylunio ac adeiladu. Fe'i dyluniwyd gan yr artist Nils Norman, gyda chymorth Imogen Higgins a Fern Thomas, dwy artist sy'n gweithio yng Nghymru.

Dyluniodd Nils Norman yr ardal chwarae'n ystod ei gyfnod fel artist preswyl yn yr amgueddfa. Rhoddwyd briff iddo ddylunio ardal chwarae unigryw oedd yn creu cysylltiadau gyda'r amgueddfa ynghyd â meithrin chwarae creadigol a bod mor gynaliadwy ac amgylcheddol-gyfeillgar â phosibl. Roeddem yn falch iawn i allu gweithio gyda Nils, sy'n gweithio ar draws ddisgyblaethau celf gyhoeddus, pensaernïaeth a chynllunio trefol ac sydd â diddordeb hefyd mewn chwarae a mannau chwarae yn ogystal â gofod cyhoeddus.

Gyda chymorth Imogen a Fern, treuliodd Nils amser yn yr amgueddfa'n arsylwi ac yn tynnu lluniau, llawer o amser yn yr archifau ac yn siarad â'r staff. Treuliodd Fern ac Imogen hefyd lawer o amser yn chwilota trwy'r archifau am eitemau diddorol i'w rhannu gyda Nils, yn ogystal â chynnal gweithdai gyda grwpiau o blant o ddwy ysgol leol – sef Ysgol Uwchradd Woodlands ac Ysgol Gynradd Hywel Dda – i ddysgu beth hoffen nhw ei weld mewn ardal chwarae newydd.

Golygodd y rhaglen breswyl y gallodd dreulio amser yn dod i adnabod y gofod ac ennill dealltwriaeth ddyfnach o'r amgueddfa yn gyffredinol. Fe wnaethom siarad llawer hefyd am sut yr oedd plant yn chwarae eisoes o amgylch y safle – y clytiau yna o laswellt wedi'u treulio ble maent wedi cerdded drosodd a throsodd, a thrafod ffyrdd y gallem annog mwy o chwarae rhydd yn yr amgueddfa.

Wrth gwrs, mae'r ardal chwarae orffenedig i blant chwarae arni a'i mwynhau'n bennaf. Mae'n cynnwys



strwythurau chwarae traddodiadol fel siglenni a'r ffrâm ddringo, yn ogystal ag ardaloedd sy'n annog chwarae sy'n fwy creadigol – y boncyff ar lawr i sgialu drosto a'r creigiau mawr i eistedd arnynt neu i neidio oddi arnynt. Mae'r ardal chwarae'n galluogi plant a theuluoedd i sylwi ar gysylltiadau cynnil rhwng y strwythurau chwarae a'r adeiladau hanesyddol wrth iddynt siglo dan fondo un adeilad, neu lithro i lawr to un arall.

Yr hyn sy'n ei wneud yn wahanol i ardaloedd chwarae eraill yw ei fod hefyd yn waith celf gerfluniol – mae'r strwythurau'n hardd i'r llygad ac mae'n teimlo fel rhan annatod o'r amgueddfa. Mae'r cyfuniad unigryw yma o chwarae, hanes a chelf, yn enwedig dros yr hanner tymor prysur hwn, wedi dod ag egni newydd a byrlymus i Sain Ffagan, egni sy'n perthyn i ac sy'n cael ei ledaenu gan y plant ddaw yma ac all hawlio eu gofod eu hunain.

Ymgyrch gan Chwarae Cymru yw *Cymru – Gwlad Chwarae-Gyfeillgar* sy'n helpu i ffurfio rhwydwaith o gymorth ar gyfer chwarae ar draws Cymru. Rhowch wybod i ni beth sy'n digwydd yn lleol naill ai i warchod neu i wahardd hawl plant i chwarae trwy fynd i'r dudalen Facebook:  
[on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar](https://on.fb.me/gwladchwaraegyfeillgar)